## 10.1 Ceisiadau'n Tynnu'n Groes | Departure Applications

Rhif y Cais: **19C641H** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mrs F Costigan and Mr D Costigan**
**c/o Berwyn Owen**
**Owen Devenport**
**1st Floor**
**Metropolitan Buildings**
**25 High Street**
**Llangefni**
**LL77 7NA**

Cynlluniau llawn ar gyfer codi wyth annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger

Full plans for the erection of eight dwellings together with the construction of a new vehicular access on land adjacent to

Garreglwyd Park Estate, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 25/07/202**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor fel cais sydd yn groes i Gynllun Lleol Ynys Môn a’r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd a ninnau yn bwriadu ei ganiatáu.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r safle yn gorwedd y tu allan i ffin ddatblygu Caergybi fel y mae’n cael ei diffinio gan Bolisi 49 Cynllun Lleol Ynys Môn a Pholisi HP3 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Mae safle’r cais yn gorwedd yn union gyfagos i ffin ddatblygu’r ddau gynllun, ac ar ffin stad breswyl preifat. Yn y stad fe geir cymysgedd o eiddo ar wahân ac eiddo pâr sydd yn unllawr a deulawr.

Y bwriad yw adeiladu 8 annedd, sef 4 pâr o unedau pâr deulawr a byddant ger yr eiddo pâr a adeiladwyd yn ddiweddar ar ffin y stad breswyl preifat elwir yn Stad Garreglwyd. Yn y stad honno fe geir cymysgedd o dai ar wahân a thai pâr unllawr a deulawr.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol gyda’r cais yw a yw’r cais yn dderbyniol yn nhermau polisi, a fydd y cynnig yn effeithio ar fwynderau eiddo cyfagos ac a ellir draenio’r safle’n ddigonol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 40 – Cadwraeth Adeiladau
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 48 – Meini Prawf Datblygu Tai
Polisi 49 - Anheddau Diffiniedig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi A2 – Tai
Polisi D3 – Ardal Gadwraeth
Polisi D4 – Lleoliad, safle a dyluniad
Polisi D28 – Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**
Polisi GP1 – Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi HP3 – Datblygiad Tai Newydd – Prif Ganolfannau a Chanolfannau Eilaidd
Polisi EN13 – Cadwraeth Adeiladau

Polisi SG4 – Gwaredu Carthffosiaeth
Polisi SG6 – Rhediad Dwr Wyneb

Polisi Cynllunio Cymru – Chwefror, 2011

Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol - Pryderon ynglŷn â llifogydd sydd yn digwydd ar hyn o bryd ger y safle.

Cyngor Tref - Dim gwrthwynebiad ond am nodi bod llifogydd ar y ffordd fynedfa o bryd i'w gilydd.

Dwr Cymru – Yn argymell rhoi caniatâd amodol

Priffyrdd - Yn argymell rhoi caniatâd amodol

Draenio – Y materion draenio yn foddhaol mewn egwyddor.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith andwyol ar statws cadwraeth ffafriol y Madfallod Cribog Mwyaf ar y safle.

Asiantaeth yr Amgylchedd – Sylwadau

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru – dim sylwadau.

Yr Awdurdod Tân – Mae angen pen morthwyl / cylch troi. Yn dilyn sgwrs ar y ffôn gyda Swyddog Tân fe gadarnhaodd nad oeddent yn gwrthwynebu'r cais ac mai dim ond argymhelliad oedd eu sylwadau yn unig a byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach ar y cyfnod Rheoliadau Adeiladu.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn dwy ffordd i'r cais. Gosodwyd rhybudd ger y safle, rhoddwyd rhybudd yn y wasg yn lleol a rhoddwyd rhybuddion personol i ddeiliaid eiddo cyfagos. Yn dilyn derbyn cynlluniau newydd fe wnaed y broses gyhoeddusrwydd dair gwaith. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 15 Mehefin, 2012. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyr wedi ei dderbyn yn yr Adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19C641 – Datblygu tir ar gyfer codi tai ger Garreglwyd Park Estate, Caergybi – Gwrthod 06/03/96
19C641A – Codi pedwar byngalo ar dir ger Garreglwyd Park Estate, Caergybi – Caniatau 11/09/97 – Cytundeb Adran (Dim datblygu pellach) 08/08/97

19C641B – Cadw'r gwaith tir lenwi presennol ynghyd a gwneud gwaith tir lenwi ychwanegol ar dir ger Garreglwyd Park Estate, Caergybi – Caniatau 26/09/97

19C641C/DA – Cynllyniau llawn ar gyfer codi byngalo ar on Plot 4, Garreglwyd Park Estate, Caergybi – Caniatau 28/08/98

19C641D – Adnewyddu cais cynllunio rhif 19C641a ar gyfer codi 4 bynglo ar dir wrth Garreglwyd Park Estate, Caergybi– Gwrthod 25/09/00

19C641E/DA – Cynlluniau manwl ar gyfer codi 3 bynglo ar blotiau 1, 2 & 3 ar dir wrth Garreglwyd Park Estate, Caergybi – Caniatau 19/03/01

19C641F – Codi pedwar byngalo ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Garreglwyd Park, Caergybi – Caniatau 28/06/06

19C641G – Cynlluniau llawn ar gyfer codi wyth annedd ynhyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Garreglwyd Estate, Caergybi – Gwrthod 30/11/06 – Caniatau Apel 24/07/07

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Polisi** – Mae’r safle yn gorwedd y tu allan i ffin ddatblygu Caergybi fel y mae’n cael ei nodi o dan Bolisi 49 Cynllun Lleol Ynys Môn a Pholisi HP3 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd ac felly mae hwn yn cael ei ystyried fel cais eithriedig ac mae’n groes i’r polisiau lleol presennol.

Fodd bynnag, fe roddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i godi 4 byngalo ym mis Medi 1997 (19C41A) ac fe’i dilynwyd gan ddau gais manwl, o dan gais cynllunio cyfeirnod 19C641C/DA a 19C641E/DA, gafodd eu cymeradwyo yn 1998 a 2001.

Yn dilyn archwilio’r ffeiliau cynllunio gallaf gadarnhau bod dechreuad o bwys wedi’i wneud ar y safle a chanlyniad hynny fu rhoi caniatâd cynllunio 19C641C/DA a 19C641E/DA.

Fe rannwyd y safle cyn hyn yn ddwy ran ac mae un rhan o’r safle wedi cael ei ddatblygu ac mae yna bedwar pâr o anheddau pâr deulawr ar y safle. Mae’r cais presennol yn debyg i’r hyn a adeiladwyd ar y safle cyfagos.
Ystyrir felly bod y cynnig yn dderbyniol gan bod yr egwyddor o gael datblygu preswyl wedi cael ei sefydlu gyda’r cais amlinellol ac wedyn y cais manwl a’i dilynodd, yn cael eu caniatáu.

**Effaith ar eiddo cyfagos** – Mae’r cynnig yn cydymffurfio gyda’r cyngor geir yn y ddogfen ‘Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig’ o safbwynt y pellteroedd rhwng yr eiddo.

Mae’r cynnig yn parchu cymeriad yr eiddo arall sydd yn union gyfagos o ran dyluniad a deunyddiau.

**Materion Technegol** – Lleisiwyd pryderon gan yr Aelod Lleol a Chyngor y Dref bod yna lifogydd weithiau ar y ffordd sydd o flaen y safle cais. Mae’r adran Cynnal a Chadw Priffyrdd yn gwybod am y broblem hon ac y maent yn y broses o ddelio gyda’r mater. Mae’r Adran Ddraenio hefyd wedi cadarnhau bod y cynllun draenio ar gyfer yr anheddau yn dderbyniol.

**7. Casgliad**

Er bod y cynnig yn gorwedd y tu allan i ffin ddatblygu Caergybi ym Mholisi 49 Cynllun Lleol Ynys Môn a Pholisi HP3 Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol oherwydd hanes cynllunio’r safle. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y mwynderau sy’n cael ei fwynhau ar hyn o bryd gan ddeiliaid yr eiddo cyfagos.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid cyflwyno cynllun rheoli i sicrhau cynnal a chadw’r fynedfa a ffordd y stad a ganiateir yma i’r awdurdod cynllunio lleol a’i gymeradwyo ganddo cyn bod neb yn byw yn unrhyw un o’r anheddau. Rhaid i’r cynllun roi manylion o gyfrifoldebau rheoli a rhestrau cynnal a chadw am holl fywyd y datblygiad.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(03) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn bresennol y briffordd nac unrhyw ffin terfyn newydd a godir yn wynebu'r briffordd fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y ffordd sirol gyfagos o naill ben ffin y safle â'r briffordd i'r llall ac ni chaniateir codi unrhyw beth uwch na hynny o fewn 2m. i'r cyfryw wal.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(04) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda'i graddiant yn ddim mwy nag 1 mewn 20 am y 5 metr cyntaf yn ol o ymyl agosaf y gerbydlon gyfagos.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(05) Rhaid cwblhau'r fynedfa gyda wyneb bitwmen am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y Briffordd Sirol gan sicrhau bod y system draenio dwr wyneb wedi ei chwblhau ac yn gweithio'n berffaith cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(06) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(07) Rhaid cwblhau'r ffordd/ffyrdd stad â cherrig sadio wedi'u cywasgu a'u sefydlogi, gyda'r system ddraenio dwr arwyneb wedi'i gorffen ac yn gweithio'n berffaith cyn cychwyn ar unrhyw waith ar yr anheddau y mae'n eu gwasanaethu.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(08) Rhaid gosod cyrbin ar y ffordd/ffyrdd stad, gosod wyneb terfynol ar y llwybrau cerdded a darparu goleuadau cyn i neb symud i fyw i'r annedd olaf ar y stad neu cyn pen 2 blwyddyn i ddechrau gweithio ar y safle neu cyn pen unrhyw gyfnod arall y cytuno'r Awdurdod Cynllunio Lleol arno yn ysgrifenedig, pa ddyddiad bynnag sy'n digwydd cyntaf.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(09) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o’r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o’r garthffos gyhoeddus.

**(10) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i’r sustem garthffosiaeth gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda’r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(11) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i’r system garthffosiaeth**

**gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(12) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 07:05:08, 10:01:11, 21:03:12 a 25:04:12 o dan cais cynllunio rhif 19C641H.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**10.2** **Ceisiadau'n Tynnu'n Groes** **Departure Applications**

Rhif y Cais: **30C293D** Application Number


Ymgeisydd Applicant


**Mr & Mrs W E Jones**
**c/o Penseiri Russell-Hughes Architects**
**56 Bridge Street,**
**Llangefni,**
**Ynys Môn.**
**LL77 7HH.**


Cais amlinellol gyda rhai materion wedi ei gadw yn ol ar gyfer dymchwel rhan or adeiladau presennol a codi annedd newydd ar dir ger

Outline application with some matters reserved for the partial demolition of existing buildings and erection of a new dwelling on land adj

Bwlch Holiday Park, Bwlch, Tynygongl



**Pwyllgor Cynllunio: 25/07/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae hwn yn gais sy'n tynnu'n groes i'r Cynllun Lleol ond oherwydd y pwys y gellir ei roi ar y CDU, ystyrir ei fod yn dderbyniol ac y gellir ei gymeradwyo.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Bwriedir codi tŷ annedd sengl i deulu.

Lleolir yr annedd ger Parc Gwyliau Bwlch ac ysgubor amaethyddol y bydd rhan ohoni'n cael ei dymchwel.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A fedrir cefnogi'r cynigion am resymau polisi?

A fydd yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol neu breswyl?

Materion priffyrdd

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

A2 Tir ar gyfer Tai
A3 Datblygiadau Tai Newydd
A6 Anheddau Newydd yn y Cefn Gwlad
D4 Lleoliad, safle a dynluniad
D29 Dyluniad

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 Polisi Cyffredinol
48 Meini Prawf ar gyfer Codi Tai
53 Tai yn y Cefn Gwlad
31 Tirlun
42 Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol**

GP1 Canllawiau Rheoli Datblygu
GP2 Dyluniad
HP3 Pentrefannau a Chlystyrau

**CCA Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – dim sylwadau

Cyngor Cymuned – dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio gyda pholisi, dim gwrthwynebiad o ran priffyrdd a'r Swyddog yn derbyn bod hwn yn ddatblygiad mewnlenwi.

Amodau Priffyrdd

Amodau Dwr Cymru

CCGC – disgwyl am ymateb

Derbyniwyd 7 llythyr ac mae'r pwyntiau a godwyd yn cynnwys:

Colli preifatrwydd
Tir ffermio yw hwn
Cynnydd yn y traffig ar hyd y lôn fach gul
Mae'r ffordd sy'n arwain i Bwlch eisoes yn beryglus a byddai'r datblygiad hwn yn gwneud pethau'n waeth
Gallai dymchwel yr adeilad fod yn risg i iechyd oherwydd mae ynddo asbestos
Byddai hyn yn newid ac yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal
Bu cynnydd mawr eisoes mewn traffig ar hyd y lôn fach
Dim angen ychwaneg o dai
Mae'n tynnu'n groes i bolisi
Gallai arwain at godi rhagor o dai
Gwrthodwyd ceisiadau eraill am dai
Mae gan barc gwyliau Bwlch hawl dramwy dros y fynedfa ac ni ddylid ei rhwystro

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

30c293 – gwrthodwyd 2 dy 16/8/91
30c293a - gwrthodwyd 2 dy 15/5/92
30c293b – cymeradwywyd cais amlinellol am 1 annedd 2/11/5
30c293c – cymeradwywyd adnewyddu b 11/9/8

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Dan ddarpariaethau'r Cynllun Lleol, lleolir y safle yn y cefn gwlad. Fodd bynnag, yn y CDU, mae wedi ei nodi fel safle sydd ym mhentrefan/clwstwr Bwlch a'r polisi perthnasol yw HP5.

Oherwydd y pwys sylweddol y gellir ei roddi ar y CDU, ystyrir y dylid gwneud penderfyniad ar y cynnig yn wyneb polisi HP5. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer anheddau sengl ar safleoedd 'mewnlenwi' neu safleoedd eraill ger y rhan o bentrefan sydd wedi cael ei datblygu.

Gyda hyn mewn golwg ac oherwydd y lleoliad mewn perthynas â datblygiadau eraill, ystyrir bod y safle yn dderbyniol ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Er bod anheddau eraill yn y cyffiniau agos, ystyrir , oherwydd eu lleoliad, na fyddai annedd unllawr yn achosi unrhyw niwed mawr i fwynderau preswyl.

O ran diogelwch y ffyrdd, ymgynghorwyr gyda Pheirianwyr Priffyrdd y Cyngor ac nid ydynt yn gwrthwynebu'r cais.

Gwneud sylwadau ynghylch datblygiadau pellach ar ôl hwn.  Os bydd ceisiadau cynllunio'n dod i law, ymdrinnir â nhw ar eu rhinweddau a phenderfynir arnynt drwy ddilyn polisïau cynllunio.

Ymhellach, o ran asbestos a all fod yn yr adeilad cyfredol a fydd yn cael ei ddymchwel, mae deddfwriaeth ar wahân yn berthnasol i bryderon o'r fath a bydd raid i'r ymgeisydd lynu wrth y ddeddfwriaeth honno.

**7. Casgliad**

Mae'r cynigion yn dderbyniol yn nhermau polisi ac ystyrir na fyddant yn niweidio mwynderau preswyl neu weledol.  Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r Awdurdod Priffyrdd yn gwrthwynebu'r cynllun.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid wrth gymeradwyaeth y Cyngor cyn cychwyn gweithio ar y materion neilltuol isod sef lleoliad, graddfa, gwedd yr adeilad(au), mynedfa ato/atynt a thirlunio'r safle.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgeisio am ganiatâd i'r mater (ion) neilltuol y cyfeirir atynt uchod ymhen tair blynedd o'r dyddiad y rhoddir y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(03) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo erbyn un o'r ddau ddyddiad isod, pa un bynnag sydd yn digwydd olaf, sef:- (a) o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu (b) o fewn dwy flynedd i'r dyddiad pryd rhoddi'r caniatâd terfynol i'r mater(ion) wrth gefn a nodir neu, pan fo caniatâd yn cael ei roddi ar ddyddiadau gwahanol, y dyddiad pryd caniatawyd yn derfynol yr olaf o'r mater(ion) wrth gefn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(04) Bydd yr annedd a ganiateir yma o fath unllawr neu ddormer yn unig.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(05) Rhaid defnyddio llechi naturiol o liw unffurf yn ddeunydd to ar yr adeilad(au) arfaethedig.**

Rheswm: Er budd mwynderau.

**(06) Ni fydd unrhyw ran arall o'r gwaith datblygu yn cychwyn hyd oni fydd y llefydd pasio a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd wedi cael eu cwblhau wrth fodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig.**

Rheswm: Er budd diogelwch y ffyrdd.

**(07) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.**

Rheswm: Er budd diogelwch y ffyrdd.

**(08) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn bresennol y briffordd nac unrhyw ffin terfyn newydd a godir yn wynebu'r briffordd fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y ffordd sirol gyfagos o naill ben ffin y safle â'r briffordd i'r llall ac ni chaniateir codi unrhyw beth uwch na hynny o fewn 2m. i'r cyfryw wal.**

Rheswm: Er budd diogelwch y ffyrdd.

**(09) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus

**(10) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(11) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(12) Rhaid i'r annedd a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 6 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(13) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r annedd a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 6 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon, neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(14) Cyn bod neb yn byw yn yr annedd a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 6 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (neu unrhyw fesur cyfatebol wedi hynny ac/neu safon neu fel a gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.